**Sesiwn 2000 - 2001 Rhif 39**

# PAPURAU BUSNES

## DYDD MAWRTH, 12 RHAGFYR 2000

## RHAN 1 - ADRAN A

## AGENDA

**Bydd y cyfarfod yn cychwyn am 2pm**

**Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru** (30 munud)

Mae rhestr o'r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe'r Siambr)

**Datganiad Busnes: Y Trefnydd**

**Cynnig cyfansawdd i gymeradwyo:-**
**Rheoliadau Cyfrifon Dysgu Unigol (Cymru) 2000**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu yn unol â Rheol Sefydlog 22.25:

Yn cymeradwyo:

- Rheoliadau Cyfrifon Dysgu Unigol (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Tachwedd 2000, ac:

- Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi darganfod unrhyw faterion sy'n peri pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau Cyfrifon Dysgu Unigol (Cymru) 2000, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Tachwedd 2000.

**Rheoliadau Ardrethi Annomestig (Offer Telathrebu) (Diwygio) (Cymru) 2000**

Yn cymeradwyo

- Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Offer Telathrebu) (Cymru) 2000

a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Tachwedd 2000, ac:

- Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi darganfod unrhyw faterion sy’n peri pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Offer Telathrebu) (Cymru) 2000, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Tachwedd 2000.

**Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethi Annomestig (Diwygio) (Cymru) 2000**

Yn cymeradwyo:

- Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2000

a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Tachwedd 2000, ac:

- Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi darganfod unrhyw faterion sy’n peri pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2000, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Tachwedd 2000.

**Cynnig i gymeradwyo trosglwyddiadau’r flwyddyn yn unol â Rheol Sefydlog 19.5**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn unol â Rheol Sefydlog 19.5, yn cymeradwyo’r newidiadau i’r cyllidebau ar draws y Prif Grwpiau Gwariant ar gyfer blwyddyn ariannol 2000-2001, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Llun 4 Rhagfyr gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Edwina Hart.

Yn nodi’r nodyn esboniadol, ‘Newidiadau Argymelledig i Gyllidebau ar Draws y Prif Grwpiau Gwariant ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2000-2001' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Llun 4 Rhagfyr 2000.

**Cynnig i ystyried adroddiad Pwyllgor Ymgynghorol Penodi Comisiynydd Plant**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn nodi adroddiad Pwyllgor Ymgynghorol Penodi Comisiynydd Plant a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Llun 4 Rhagfyr 2000.

**Datganiad Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar Araith y Frenhines**

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad**

**am 9.05am ddydd Iau, 14 Rhagfyr 2000**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**